

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cylchfan Halton, Y Waun,
Bwrdeistref Sirol Wrecsam i
Bentrefoelas, Bwrdeistref Sirol
Conwy) (Gwaharddiadau Traffig
Dros Dro) 2019

The A5 Trunk Road (Halton
Roundabout, Chirk, Wrexham
County Borough to Pentrefoelas,
Conwy County Borough)
(Temporary Traffic Prohibitions)
Order 2019

Gwnaed 14 Ionawr 2019

Made 14 January 2019

Yn dod i rym 17 Ionawr 2019

Coming into force 17 January 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited of the likelihood of danger to the public arising from the transportation of abnormal indivisible loads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam i Bentrefoelas, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 17 Ionawr 2019.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Halton Roundabout, Chirk, Wrexham County Borough to Pentrefoelas, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2019 and it comes into force on 17 January 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the transportation of abnormal indivisible loads giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y cludo” (“*transportation period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 17 Ionawr 2019 ac sy’n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaerdybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn yn ystod cyfnod y cludo.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwysu

7. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“transportation period” (“*cyfnod y cludo*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 17 January 2019 and ending when the movement of the abnormal indivisible loads has been completed;

“the trunk road” means the A5 London to Holyhead Trunk Road.

Prohibitions

3. No person may, during the transportation period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the transportation period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

5. No person may, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait, load or unload on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order during the transportation period.

6. No person may, during the transportation period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

Application

7. The prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

8. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

14 January 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Halton, y Waun, Wrecsam hyd at ei chyffordd â'r A543 ym Mhentrefoelas, Conwy.

ATODLEN 2

Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Dros Dro

Y darnau o ddwy ochr y gefnffordd o'r enw Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 43 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Farchnad am bellter o 215 o fetrau.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 95 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 128 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd y Bont, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 138 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Las hyd at bwynt 197 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from the centre-point of Halton Roundabout, Chirk, Wrexham to its junction with the A543 at Pentrefoelas, Conwy.

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Waiting, Loading & Unloading

The lengths of both sides of the trunk road known as Berwyn Road, Llangollen, Denbighshire that extends westwards from a point 43 metres west of the centre-point of its junction with Market Street for a distance of 215 metres.

The southern side of the length of the trunk road known as London Road, Corwen, Denbighshire that extends from a point 27 metres west of the centre-point of its junction with the lane leading to Brookside Cottages to a point 50 metres west of that junction.

The southern side of the length of the trunk road known as London Road, Corwen, Denbighshire that extends from a point 95 metres west of the centre-point of its junction with the lane leading to Brookside Cottages to a point 128 metres west of that junction.

The southern side of the length of the trunk road known as Bridge Street, Corwen, Denbighshire that extends from a point 138 metres west of the centre-point of its junction with Green Lane to a point 197 metres west of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(CYLCHFAN HALTON, Y WAUN,
BWRDEISTREF SIROL WRECSAM I
BENTREFOELAS, BWRDEISTREF SIROL
CONWY) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS
DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn ar sail diogelwch er mwyn caniatáu i gydrannau, sy'n llwythi anwahanadwy annormal (fel y diffinnir "abnormal indivisible loads" yng Ngorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 ("Gorchymyn 2003"), gael eu cludo'n ddiogel ar hyd cefnffordd yr A5 rhwng Cylchfan Halton, y Waun, Wrecsam a Phentrefoelas, Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys a'r rhai sy'n teithio gyda'r llwythi anwahanadwy annormal wrth iddynt symud) a beicwyr rhag mynd ar hyd y darn o'r A5 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ar yr adegau hynny a nodir ar arwyddion ac y bydd yr heddlu a/neu'r hebryngwyr a gyflogir yn unol â Gorchymyn 2003 yn hysbysu amdanynt. Ni chynigir llwybrau eraill gan y cynhelir toriad mewn traffig er mwyn caniatáu i lwythi anwahanadwy annormal yn unig gael eu symud ar y gefnffordd. □

ii. Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar y darnau o'r A5 a ddisgrifir yn Atodlen 2. Dim ond am gyfnodau byr y bydd y gwaharddiad hwn mewn grym, a hynny ar yr adegau pan fydd llwythi anwahanadwy annormal yn cael eu symud.

iii. Gwahardd goddiweddyd ar y darn o'r A5 a ddisgrifir yn Atodlen 1 ar yr adegau pan fydd llwythi anwahanadwy annormal yn cael eu symud.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol o 00:01 o'r gloch ar 17 Ionawr 2019 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2019).

**THE A5 TRUNK ROAD (HALTON
ROUNABOUT, CHIRK, WREXHAM COUNTY
BOROUGH TO PENTREFOELAS, CONWY
COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY
TRAFFIC PROHIBITIONS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required on safety grounds to permit the safe transportation of components which comprise abnormal indivisible loads (AIL) (as defined in the Road Vehicle (Authorisation of Special Types) (General) Order 2003 ("the 2003 Order") along the A5 trunk road between Halton Roundabout, Chirk, Wrexham and Pentrefoelas, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and accompanying the AIL movement) and cyclists from proceeding along the length of the A5 described in Schedule 1 to this Notice during such times as signed and advised by the police and/or attendants employed pursuant to the 2003 Order. No alternative routes are proposed as a rolling block of vehicles will be used to allow the sole movement of indivisible abnormal loads on the trunk road.

ii. Prohibit waiting, loading and unloading on the lengths of the A5 described in Schedule 2. This prohibition will only be in force for short periods of time during times of AIL transportation.

iii. Prohibit overtaking on the length of the A5 described in Schedule 1 during times of AIL transportation.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently from 00:01 hours on 17 January 2019 for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

SCHEDULES

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Dim Goddiweddyd

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists & No Overtaking

Y darn o'r A5 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Halton, y Waun, Wrecsam hyd at ei chyffordd â'r A543 ym Mhentrefoelas, Conwy.

The length of the A5 that extends from the centre-point of Halton Roundabout, Chirk, Wrexham to its junction with the A543 at Pentrefoelas, Conwy.

ATODLEN 2

Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Dros Dro

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Waiting, Loading & Unloading

Y darnau o ddwy ochr yr A5 o'r enw Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 43 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Farchnad am bellter o 215 o fetrau.

The lengths of both sides of the A5 known as Berwyn Road, Llangollen, Denbighshire that extends westwards from a point 43 metres west of the centre-point of its junction with Market Street for a distance of 215 metres.

Ochr ddeheuol y darn o'r A5 o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

The southern side of the length of the A5 known as London Road, Corwen, Denbighshire that extends from a point 27 metres west of the centre-point of its junction with the lane leading to Brookside Cottages to a point 50 metres west of that junction.

Ochr ddeheuol y darn o'r A5 o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 95 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 128 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

The southern side of the length of the A5 known as London Road, Corwen, Denbighshire that extends from a point 95 metres west of the centre-point of its junction with the lane leading to Brookside Cottages to a point 128 metres west of that junction.

Ochr ddeheuol y darn o'r A5 o'r enw Stryd y Bont, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 138 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Las hyd at bwynt 197 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

The southern side of the length of the A5 known as Bridge Street, Corwen, Denbighshire that extends from a point 138 metres west of the centre-point of its junction with Green Lane to a point 197 metres west of that junction.